# DINESYDD Dydd Iau

10 Awst 1978

10c


# TROED YN Y DRWS



**Yn ystod araith Llywydd y Dydd, Mr John Morris, cafwyd protest gan aelodau Cymdeithas yr Iaith y tu fewn i'r Pafiliwn. Ychydig funudau wedi i'r Ysgrifennydd Gwladol godi ar ei draed, safodd Aled Eurig, cyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas, a mynegi ei siom fod adroddiad olaf Cyngor yr Iaith wedi ei adael ar y bwrdd.**

Tawodd Mr Morris ar unwaith ac aeth Aled Eirig rhagddo i holi pryd y gweithredid y Bedwaredd Sianel. Amheuai'n gryf a fyddai'r amodau gweithredu'n rhai teg. Neidiodd rhyw hanner cant o bobl ifanc ar eu traed wedi iddo orffen a gweiddi am degwch i'r sianel Gymraeg. Wedi rhyw ddeng munud o hyn, fe'u hebryngwyd yn heddychlon i gefn y llwyfan.

Brysiodd Mr Morris i bwysleisio ei fod ef yn awr am wneud ei bwynt. Mynnai fod aelodau'r Gymdeithas yn curo ar ddrws agored, ac mai ef, yn rhinwedd ei swydd, a'i hagorodd. Wrth fynd ymlaen â'i araith, dywedodd na fynnai weld sefydlu cartref sefydlog i'r Eisteddfod gan y byddai hynny'n llacio'r cwlwm rhyngddi a'r gymdeithas leol.

Soniodd wedyn am faich ariannol addysg ddwyieithog a'i barodrwydd pellach i dalu grant benodol i gwrdd â chostau addysg ddwyieithog yng Nghymru. Wrth gloi ei araith pwysleisiodd fod "Mesur Cymru, wedi pedair blynedd o chwys, bellach yn rhan o Gyfraith Gwlad." Mae'r cyfrifoldeb bellach ar ysgwyddau'r Cymry, meddai. Teimlai ein bod ar fin cyrraedd gwanwyn newydd ac na ddylem ar unryw gyfrif golli'r cyfle hwn.

Dywedodd Wynfford James, is-Gadeirydd y Gymdeithas, mewn cyfweliad â'r *Dinesydd Dyddiol*, mai nod ddechreuol yn unig oedd pum awr ar hugain o Gymraeg yr wythnos, ac nid nod amser hir. Ffwlbri fyddai credu fod y drws eisoes wedi agor.



*HARRI WILLIAMS (gwel. uchod)*

## Y Fedal

Enillydd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yw'r Parchedig Athro Harri Williams, o Goleg Diwinyddol Aberystwyth.

Ganed Harri Williams yn Lerpwl, a'i rieni yn dod o ardal Marianglas yn Sir Fôn. Ar ôl gweithio mewn swyddfa yn Lerpwl am bum mlynedd, fe benderfynodd fynd i'r weinidogaeth, a chafodd ei addysg yn Rhydychen a Choleg y Bala.

Bu'n weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Nhywyn, yn y Waunfawr, ac ym Mangor, cyn cael ei benodi'n Athro ar y Cwrs Bugeiliol yng Ngholeg Diwinyddol ei enwad yn Aberystwyth.

Bywgraffiad dychmygol yw ei gyfrol fuddugol yn adrodd stori ddirdynnol Sören Kierkegaard yr athronydd o lenor dwy a deugain oed mewn ysbyty yng Nghopenhagen yn aros y diwedd. Y dyddiadur dychmygol hwn yw ei destament olaf.

# Beirniadu'r Beirniad

**Wedi'r datgeliadau ynglŷn â chystadleuaeth y Gadair yn y *Western Mail* ddoe, mae'n debyg fod Llywydd y Llys wedi dweud rhai geiriau hallt iawn wrth y gohebydd Clive Betts am ei ymddygiad, sydd yn torri pob rheol anysgrifenedig ynglŷn â chystadlaethau a seremoniau mawr yr Eisteddfod.**

Yn awr, mae son fod yr Orsedd am gymryd camrau pendant, hyd yn oed i'r graddau o roi gwahar-ddiad parhaol ar feirniaid na allant gadw eu cegau ar gau. Yn y gystadleuaeth o dan sylw, clywodd un o uchel swyddogion yr Eisteddfod un o'r beirniaid, gŵr uchel yn yr Orsedd, wrth ford bwyd o fewn wythnos o dderbyn y cyfansoddiadau i'w beirniadu, yn dweud beth oedd y canlyniadau.

Y mae rhai o swyddogion yr Eisteddfod ac aelodau o'r Orsedd yn teimlo mor gryf ynglŷn â hyn nes dymuno enwi'r troseddwr a'i geryddu'n gyhoeddus. Tybed oni allai'r Archdderwydd ddylanwadu ar y beirniaid yn y cyswllt hwn yn y dyfodol. Neu a ydy'wn debyg o anghofio'i anghrediniaeth am foment, a dyfynnu wrthym yr adnod enwog a geir yn Llyfr Genesis (pennod 4, adnod IX)?

**CYFARFOD PWYSIG**
i wyntyllu ein hymateb i gynnig diweddaraf y Llywodraeth ym myd darlledu.
Tu allan i Babell Cymdeithas yr Iaith
HEDDIW
Dydd Iau, 10 Awst 1978
12.00 o'r gloch
**Amodau Teg i'r Sianel**
Siaradwyr:
Dafydd Elis Thomas A.S.
Rhodri Williams,

DALIER SYLW
Darlith Flynyddol
Y
Gymdeithas Wyddonol
**NEWID AMSER**
**i 12.45pm**
Y Babell Lên

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH SY23 3BU**

**Cyhoeddiadau cyson y Llyfrgell**

- Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru — sy'n ymddangos bob hanner blwyddyn. Tanysgrifiad blynyddol o 1979 ymlaen — £3.00.
- Rhestr Llawysgrifau sydd yn y Llyfrgell. Prisiau rhwng 20c a 40c y Rhan.
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru — Crynodeb Byr o'i Hanes a'i Gweithgareddau. Pris 10c.
- Bibliotheca Celtica — cofrestr cyhoeddiadau sy'n berthnasol i bobl a ieithoedd Cymru a'r gwledydd Celtaidd. Prisiau yn amrywio.

**Llawer o hen gyhoeddiadau ar werth, gan gynnwys —**

- Cyfansoddiadau'r Eisteddfod Genedlaethol — amryw o flynyddoedd rhwng 1888 a 1942 25c a 15c
- Cofrestr o'r holl Lyfrau Printiedig gan mwyaf a gyfansoddwyd yn y Iaith Gymraeg (1912) 20c
- Rhestr o Lyfrau a argraffwyd yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoed 1763 a 1807 (1916) 25c
- Rhestr o Lyfrau gan y Parch. William Williams Pantycelyn a argraffwyd rhwng 1744 a 1800 (1918) 25c
- 'Series of Old Welsh Texts', a olygwyd gan J. Gwenogfryn Evans:
  Poetry by Mediaeval Welsh Bards 55c
  Llyfr Iob 10c a 5c

Y mae cludiad yn ychwanegol at y prisiau uchod. Gellir cael manylion holl gyhoeddiadau'r Llyfrgell drwy anfon a y **Rhestrau Cyhoeddiadau** at Ysgrifennydd y Llyfrgell yn y cyfeiriad uchod neu ffonio 0970/3816-9, estyniad 206.



# A oes gennych blentyn dan oed ysgol?


A hoffech i'r plentyn dderbyn addysg feithrin Gymraeg?

Os nad oes gennych wybodaeth am Gylch Meithrin Cymraeg o fewn cyrraedd i chwi, anfonwch air atom, ac fe gewch y manylion am Swyddog Datblygu eich ardal, ac am y Cylch Meithrin agosaf i'ch plentyn ei fynychu.

*Anfoner at:-*
*Y CYFARWYDDWR,*
*MUDIAD YSGOLION MEITHRIN,*
*CANOLFAN YR URDD,*
*HEOL CONWY,*
*CANTON,*
*CAERDYDD.*
*FFÔN: 36113*



**CRASBOETH o'r LOLFA!!**





**Nofel antur/dditectif orau'r ganrif yn Gymraeg. £1.95**




**Cant o dafarnau gorau Cymru gyda llun a malu cachu am bob un. £1.25**








**Y Llewod diweddara! 85c yr un**

**Mynnwch ein catalog rhad.**

**Y Lolfa**

Talybont Ceredigion ffôn 304



**MISTAR URDD**
Aelod enwoca'r Urdd
ac arwr plant Cymru

Galwch heibio i'w weld
yn **SIOP MISTAR URDD**
**ar faes Eisteddfod Caerdydd**

---

CYMDEITHAS
# TAI GWYNEDD

- Erbyn diwedd 1978, bydd y Gymdeithas elusennol hon wedi darparu 27 o gartrefi i deuluoedd ym mhentrefi Gwynedd.
- Gellwch ein helpu i ddarparu mwy drwy roi benthyg arian i'r Gymdeithas ar log o 6% — neu'n ddi-log.

*Manylion pellach oddi wrth:*

*Y Trefnydd, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.*

---

Croeso i babell
## Cymorth Cristnogol
i weld......
Arddangosfa gan Ysgolion Cyfun Llanhari a Rhydfelen
ac Ysgol Howells, Caerdydd;
hefyd lluniau o gynlluniau â gefnogwn.
i brynu......
Bathodynnau, Beiros, Defnyddiau a Chardiau Nadolig. Dewch heibio am 'baned o goffi yn ystod yr wythnos.
*SAFWN DROS GYFIAWNDER A DANGOSWN DOSTURI TUAG AT EIN CYD-DDYN.*

---

*Urdd Gobaith Cymru*
Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno
**RIFIW**
**'NEB YN DEILWNG'**
ARENA
THEATR Y SHERMAN
Nos Iau Awst 10
Nos Wener Awst 11
Nos Sadwrn Awst 12
am 10.30 o'r gloch
**MYNEDIAD £1**
Tocynnau ar gael o:-
Babell y Ganolfan ar y maes

---

***GWERIN***
Uned 74 ar y maes
Cofiwch alw

Siop:-
102 Heol Albany
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn: 496615

---

Elwyn Williams (Athro Coleg Cerdd a Ddrama Cymru, a chyn fyfyriwr Academi Cerddorol Frenhinol, Llundain, ac Academi Gerddorol Sant Cecilia, Rhufain) yn derbyn Disgyblion mewn piano, llais, arwain (corawl a cherddorfaol), a chyfeiliant. Hefyd hyfforddiant am weithgareddau arbennig e.e. eisteddfodau, a chyngherddau etc. Telerau rhesymol.

Am ragor o fanylion ysgrifennwch neu ffoniwch:
Elwyn Williams,
41 St. Benedict Cres.,
Heath, Caerdydd.
Ffôn: 611435.

---

**Siop Eifionydd**
Porthmadog

Pob math o offeryniau cerdd.
Llyfrau a recordiau.
Ffôn: (0766) 2795

---

**Cyhoeddwyr Cleglen Cyf,**
**(Argraffwyr),**
**Ffôn: (0222) 396262**

---

# Gwneud hanes

Mae Cwmni Cyhoeddi Cleglen Cyf yn falch o fod wedi darparu'r modd i alluogi papur dyddiol Cymraeg cyntaf Cymru, *Y Dinesydd Dyddiol*, i gael ei argraffu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**CLEGLEN + AP DAFYDD**

### HYBARCH DRACTERWYDD

Does dim gwir o gwbl yn y si fod Swyddogion yr Eisteddfod yn bwriadu cyflwyno tractor yn rhodd i Lloyd Evans am ei lafur diflino dros bopeth yn yr Eisteddfod. Os aiff rhywbeth o'i le, "Ewch i nôl Lloyd!" ydy'r frawddeg gyntaf ar wefusau!

## Teithio tramor

**Mae nifer o bobl enwog San Steffan wedi taro mewn i'r Eisteddfod. Dydd Gwener, gobeithir gweld David Owen, sy o dras Cymreig yn dod i roi tro amdanom. Mae'n awgrymog ei fod yn dod ar ddydd y Cymry ar Wasgar!**

## EMBARAS!

**Gŵyr pawb y fath lygaid eryr sydd gan W.J. Jones, Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith, am ddarganfod pechaduriaid sy'n ceisio twyllo'r Eisteddfod drwy hawlio tocynnau mynediad neu docynnau bwyd am ddim. Ond aeth pethau ychydig bach dros ben llestri yn y babell fwyd swyddogol y diwrnod o'r blaen pan aeth Llygaid Eryr at rywun nad oedd e'n ei adnabod ac awgrymu hwyrach nad oedd ganddo'r hawl i fod yno'n mwynhau'r bwyd swyddogol.**

**"Drychwch 'ma," meddai'r dyn, gan gyfeirio at fathodyn W.J., "fe fydd gen i un o'r rheina flwyddyn nesa!" A dyna sut y cyfarfu W.J. ag Ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caernarfon!**

## Pwy yw'r CEFNOGWR?



**Mae cystadleuaeth "Pwy yw'r Cefnogwr?" yn dal i ddenu llif cyson i Babell y *Dinesydd Dyddiol* i geisio dyfalu pwy yw'r person o dan yr het fowler â'i gefn (neu â'i chefn) atom. Dyma Gefnogwr newydd i chi heddiw: wyddoch chi pwy yw e? Dewch â'ch atebion i'r babell (ger llaw'r Babell Lên) — het fowler y *Dinesydd Dyddiol* yn wobr i'r cyntaf i roi'r ateb cywir.**

**Daeth yr ateb cywir ddoe yn fore iawn eto — tua hanner awr wedi naw, gan Sion Meredydd o Sir Fôn. Llongyfarchiadau iti Siôn — a dyma Brynmor Williams, cefnogwr dydd Mercher yn gwenu'n hapus ar y maes.**

## Blodeuwedd yn denu

**Un o'r perfformiadau sy wedi denu'r tyrfaoedd yn yr Eisteddfod ydy Blodeuwedd. Mae'r nodiadau hyn yn cael eu llunio am wyth o'r gloch fore dydd Mercher gyda'r wybodaeth fod pob tocyn wedi'i werthu eisoes. Ond oherwydd natur hylaw Theatr Bute, roedd hi'n bosibl gosod nifer o gadeiriau o gwmpas y llwyfan i eisteddfodwyr gael y cyfle i weld y cynhyrchiad chwyldroadol hwn — bid siŵr, un o uchafbwyntiau'r Eisteddfod.**

## Do mi so do



Mae'r stiwdio gerdd yn llwyddiant, ond beth am y cyngherddau siambr? Dim ond ugain o gynulleidfa yn y cyngerdd dydd Mawrth. Faint o eisteddfodwyr sydd yn ddigon cerddorol, tybed, i fynd mor bell o faes yr Eisteddfod i wrando — yn enwedig os yw Te'r Orsedd yn cael ei fwyta ddeg llath i ffwrdd ar yr un pryd!


# Y Ddraig Goch

**"Y DDRAIG GOCH"**

Yr unig bapur misol Cymraeg sy'n cyflwyno yr agwedd genedlaethol ar faterion cyfoes Cymru. Mae'n hanfodol i'r dinesydd o Gymro sydd am ddeall yr hyn sy'n mynd ymlaen yn y Gymru fodern.

**"WELSH NATION"**

Chwaer-bapur "Y Ddraig" (yn Saesneg). Eto yn gosod allan barn annibynnol Cymreig ar faterion cyfoes.

Mae'r ddau bapur hyn yn angenrheidiol i'r Cymro sydd am ddatblygu ei farn ei hun ar bethau, heb ddibynnu ar gyfryngau Llundain am hynny.

Gellir archebu'r naill neu'r llall (neu'r ddau!) trwy anfon at: Swyddfa Y Ddraig Goch, 51 Heol yr Eglwys Gadeiriol, CAERDYDD.

Tanysgrifiad blwyddyn am y "Ddraig": £3.00 (mewnol), neu £4.00 (tramor). Tanysgrifiad am y "Nation" yn debyg.

**Edrychwn ymlaen at glywed gennych!**


# WELSH NATION


*NOS WENER, 11 AWST*
*am 7.30*
*yn*
*Eglwys Gadeiriol Babyddol,*
*Heol Siarl,*

CWMNI DRAMA
**YSGOL GYFUN RHYDFELEN**

YN CYFLWYNO
**CWYMP AC ADFERIAD DYN**

# GERDDI'R DYFFRYN



**Mae bysus Cymru Cenedlaethol rhif 251, 252 a 302 yn mynd i Sain Nicolas, sydd gerllaw Caerdydd ym Mro Mogannwg. Mae'r bysus yma yn mynd drwy heol brysur Heol y Bontfaen, a chawn gip ar Ysbyty Dewi Sant a Chapel y Presbyteriaid Cymraeg Salem, Cantwn, wrth basio ar y llaw dde. Yn nes ymlaen wrth ddod at bont afon Elai a'r rheilffyrdd, gwelwn liwau du coch a gwyn Tafarn Tŷ Pwll Coch — a'r enw'n uniaith Gymraeg.**

Disgynnwn o'r bws yn Sain Nicolas; rai llathenni o'r ffordd fawr ar y dde i'r heol fawr mae'r hen eglwys ac amrywiaeth o goed cydnerth iach yn ei chysgodi. Mae 'na ragor o dai to gwellt o gwmpas yr eglwys ac enwau Cymraeg tlws ar y lonydd.

Mae arwyddbost 'nôl ar y ffordd fawr A48 yn dangos y ffordd i'r de i Erddi'r Dyffryn. Dyma Ddyffryn Golych, dyffryn cysegredig gan y derwyddon, yn ôl Dafydd Morgannwg. Ar y ffordd i'r Dyffryn, awn i weld Siambar Gladdu Tinkinswood (cyfeirnod map: 092733); mae'r llwybr troed ati ar y llaw dde — drwy ddwy glwyd-drô a dau gae. Mae mynediad yn rhad ac am ddim Tinkinswood ac i'r Gromlech arall yn Llwyneliddon ac maent ill dwy yn cael eu gwarchod gan Adran yr Amgylchedd.

Cafwyd hyd i weddillion rhyw 50 o bobl wrth gloddio'r gromlech yn 1914. Mae yn un o'r siambrau claddu mwyaf a rhagoraf o ran cadwraeth ym Mhrydain, yn ôl yr archaeolegwyr.

Gellir gweld y muriau cerrig sych sy'n amgylchu'r garnedd, nid yn unig yn y blaengwrt ond mewn un man ar yr ochr ogleddol, lle tynnwyd rhai o'r cerrig cynnal ychwanegol. Un llechfaen fawr yw tô y siambar, a chredir ei bod yn pwyso 40 tunnell; mae'r meini mawr yma yn y gofadail wedi eu gwneud o garreg laid Driasig leol.

O Tinkinswood 'nôl ar hyd yr un llwybr, heibio'r defaid a'r ebolion, ac i'r ffordd galed a disgyn ymhellach i Ddyffryn Golych. Mae Plas a Gerddi'r Dyffryn hefyd ar y llaw dde, ac maent yng ngofal Cyngor De a Chanol Morgannwg erbyn hyn. Mae'r gerddi ar agor i'r cyhoedd rhwng 10a.m. a 7p.m., ac maent yn werth eu gweld; mae planhigion o bob rhan o'r byd yma, a llawer o Tseina. Dydy'r tŷ ddim ar agor i'r cyhoedd. Fe'i hadeiladwyd yn 1893 gan y perchennog glofeydd, John Cory. Mae dylanwad Ffrengig ar y bensaerniaeth. Roedd yn safle hen Faenordy Worleton ynghynt, a hwn oedd cartref teulu Button. Yr enwocaf oedd y Llyngesydd Syr Thomas Button, gŵr a fentrodd allan yn nechrau'r unfed ganrif ar bymtheg i archwilio Bae Hudson.

Hanner milltir o'r Dyffryn i'r de-ddwyrain mae Siambr Gladdu Llwyneliddon (cyfeirnod map 1007122). Troër ar y chwith ar y gyffordd islaw'r Dyffryn a mynd trwy glwyd-drô arall ar y llaw dde. Dim ond maen capan a thri maen unionsyth sydd ar ôl o'r siambar hon, ac fe'i hadeiladwyd tua 2,500 mlynedd Cyn Crist.

Gellir cerdded o Gromlech Llwyneliddon ymlaen i bentre Llwyneliddon a Gwenfô. Mae Capel Cymraeg Twyn-yr-Odyn yn ymyl y chwarel fawr yng Ngwenfô. Mae'r bws 354 yn mynd yn ôl i Gaerdydd o Wenfô bob rhyw hanner awr ar ddyddiau gwaith. Neu gellir cerdded ymhellach i weld Llanfihangel-y-Pwll a Dinas Powis, ble mae gweddillion castell ac olion Rhufeinig. Mae'r bws rhif 304 yn pasio drwy Ddinas Powis yn ôl i Gaerdydd, bob rhyw hanner awr.

DAFYDD GWYLON


**CÔR POLIFFONIG CAERDYDD**

*Côr-feistr: Richard Elfyn Jones*

Fe gynhelir profion blynyddol i ddenu aelodau newydd ddechrau mis Medi.

Os oes gennych chi chwant ymuno cysylltwch â Rheolwr y côr.

Howard Goodfellow,
148, Westbourne Road,
Penarth.
Ffôn: 707827



AM GYRSIAU ADDYSG OEDOLION YNG

NGHANOLFAN OEDOLION YR EGLWYS NEWYDD

Anfonwch amlen wedi'r chyfeirio am raglen i Mr Colin Payne, Pennaeth y Dalgylch, Ysgol Eglwys Newydd (Isa), Glanynant, Caerdydd, neu ffoniwch 614392 neu 755034



MUDIAD EFENGYLAIDD CYMRU

**CYFARFODYDD PREGETHU**

**Nos Iau** - y Parch. Sulwyn Jones
**Nos Wener** - y Parch. Gwynn Williams

Yn Ysgoldy y Methodistaid Saesneg
Ffordd Cyncoed, Cyncoed am 8

LLYFRGELL EFENGYLAIDD CYMRU

Darlith Gyhoeddus ar

**ISLWYN**

Gan Gwyn Davies
Coleg Prifysgol Aberystwyth

Pabell y Cymdeithasau
Dydd Gwener am 12.30pm

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.

**antiques** UNLIMITED

PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH

7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.

Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:

**METELAU LLANDOW**

Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!
RHIF FFÔN:
LLANILLTUD FAWR
2756

POSTERI CERDDI

**Cynnig arbennig 3 am bris 2 cludiad am ddim**

Fel arfer £1.00 yr un yw pris posteri lliw 20″ × 30″. Am gyfnod byr yn unig rydym yn gwerthu drwy'r post 3 am £2.00. 3 am bris 2.

Ysgrifennwch i ddweud pa 3 poster yr hoffech gael ac anfonwch £2.00 (yn daladwy i ORIEL) at: ORIEL, Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd CF1 4ED

| | |
|---|---|
| A1 | Yr Wylan - Dafydd ap Gwilym |
| A2 | The Seagull - Glyn Jones |
| A3 | A Child's Christmas in Wales - Dylan Thomas |
| A4 | Dysgub y Dail - Crwys |
| A5 | Fern Hill - Dylan Thomas |
| A6 | Cynddylan on a Tractor - R S Thomas |
| A7 | Hon - T H Parry-Williams |
| A8 | Cofio - Waldo Williams |
| A9 | Eifionydd - R Williams Parry |
| A10 | Maggie Fach - Idris Davies |
| A11 | Carol y Crefftwr - Iorwerth C Peate |
| A12 | I Wallt Merch - Dafydd ab Edmwnd |
| A13 | Do you Remember 1926? - Idris Davies |
| A14 | Cara Wallia Derelicta - David Jones |
| A15 | Machlud - Alan Llwyd |
| A16 | Eisteddfod 1176-1976 |
| A17 | Aberdaron - Cynan |
| A18 | Y Fantell Fraith - I D Hooson |
| A19 | Eryr Pengwern |

**Special Offer 3 for the price of 2 post free**

Normally these full colour 20″ × 30″ posters retail at £1.00 each. For a limited period only we can offer them for sale, by post only, at 3 for £2.00. 3 for the price of 2.

Write, stating your choice of 3 posters and enclosing £2.00 (payable to ORIEL) to: ORIEL, Welsh Arts Council, 53 Charles Street, Cardiff CF1 4ED

POEM POSTERS

CROESO I GASTELL CAERDYDD

An invitation to dine at Cardiff Castle



Estynnwn wahoddiad i chi i ymuno gyda ni mewn noson o ddifyrrwch a cherddor-iaeth traddodiadol Gymraeg.

Venez passer une bonne soirée dans l'ambiance médiévale de nos anciennes traditions galloises de chants, de mus-ique et de gaieté.

Komt u eens een avond met tradition-ele gastvrijheid van Wales bijwonen Een avond van lekker eten en gezellige muziek in een romantische omgeving.

You are invited to share in an evening of Welsh hospitality - a delicious traditional feast accompanied by the lovely melodies of Wales and the ingenious compositions of the Tudor Court sung by the enchanting ladies of Morgannwg accompanied by harp and minstrels

For bookings : Telephone CARDIFF 372737

# MOUNT SORREL

**HEOL PORTHCERI**
**Y BARRI, DE MORGANNWG ☎740069**
***A.A.*   ***R.A.C.*

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat)
Teledu Lliw, Radio a Ffon ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU   PRIODASAU   CINIO A DAWNS

DEWCH I'R BARRI

unrhyw amser

Hawdd cyrraedd yno o faes yr Eisteddfod

3 milltir o Faesawyr y Rhŵs
8 milltir o Gaerdydd
Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus



**Taith Gymreig**
**Côr Gwladwriaeth**
**Hwngari**
(Côr Kodaly o Debrecen)

6ed i'r 25ain Tachwedd
1978

Cwmbran, Aberdár, Caerdydd, Abertawe, Ystrad Mynach,
Porthcawl, Castell Nedd, Treorci,
Caerfyrddin, Aberystwyth, Crymych, Llwchwr,
Queensferry, Caernarfon, Porthmadog, Sir Fôn,
Conwy, Rhyl.

*Manylion gan:*
*Gyngor y Celfyddydau, 9 Stryd yr Amgueddfa,*
*Caerdydd CF1 3NX. Ffôn: 394711*

# Ychydig lwch

**Rhyw bedair neu bum milltir o Bentwyn i'r gogledd-ddwyrain saif plasty Cefn Mabli ac Eglwys Llanfihagel-y-Fedw, cartref hen deulu'r Kemeisiaid a gorweddle olaf cenhedlaethau ohonynt. Bu yno am bedair canrif neu fwy deulu o waed y Morganiaid ac o dras Ifor Hael, noddwyr beirdd a chynheiliaid mân-bendefigaeth. Cofia W.J. Gruffydd yn ei soned yr hen fawredd a rhialti, gan gasglu nad oes yn weddill ond —**

*Ychydig o'r hen wylo yn y glaw,*
*Ychydig lwch yn Llanfihangel draw.*

Bedd diddorol arall yn y fynwent yw eiddo Elizabeth Mackie o'r Alban. Hi oedd gwraig gyntaf Almaenwr o'r enw Carl Hess, a'i fab ef o briodas ddiweddarach yw Rudolf Hess y Natsiad sy'n edwino hyd heddiw yn Spandau.

Ond daeth tro arall ar fyd yng Nghefn Mabli pan gyflwynodd Arglwydd Tredegyr y plas i'w ddefnyddio fel sanatoriwm. Yma, ar ffin maes glô y cymoedd, edrydd Gomer Roberts (yn "Crwydro Blaenau Morgannwg") ei brofiad yn ymweld â'i frawd ym 1937, yn dioddef o glefyd llwch y glo, ac yn ei gystudd olaf. Dywed fod y meddyg wedi siglo'i ben wrth ddangos y plât pelydr-X-. '*Ychydig lwch*, meddai'r bardd, — *gormod*, meddai'r meddyg.'

DAFYDD BRYN

## ADFERWN Y TWMPATH!

Pa beth, tybed, a ddigwyddodd i un o'n traddodiadau gwerin bywiocaf — Y Twmpath Dawns (er nad byw mohono mwyach, yn sicr!). Sawl un ohonoch a gafodd lond bol o'r diwylliant Eingl-Americanaid a wthir arnom trwy gyfrwng y disco bondigrybwyll? Paham, meddech, na roddwn yr un sylw i'r dawnsio gwerin ag a roir i'r dawnsio disco — ac yn enwedig yn ystod wythnos yr Eisteddfod? Bu amser pan nad oedd yr un Steddfod yn gyflawn heb Dwmpath Dawns bob nos. Eleni, un yn unig a ddarparwyd ar ein cyfer — a diolch amdano. Trefnwyd noson hwyliog nos Lun yn Neuadd y Clwb Trydan, Pontcanna, gan Gymdeithas Dawns Werin Cymru. Gresyn na ellid ail-ennyn diddordeb yn y twmpathau — efallai y bydd cyfle i wneud hyn yn Nghaernarfon y flwyddyn nesaf!

# BWYD Y BEIRDD



### 1. TU FAES I GAERDYDD

BOSPHOROUS, Penarth. Bwyd Twrci (y wlad, nid yr aderyn) gyda gwin Twrci hefyd. Anarferol (**).

CAPRICE, Glanymôr, Penarth. Bwyd rhyngwladol a phrisiau Llundain, cewch werth eich arian — bwyd, gwin, golygfa a gweini i gyd o safon uchel iawn. Ewch os yn ennill y Gadair (****).

TŶ SILI (Sully House), Sili. Bwyd rhyngwladol mewn awyrgylch plasdy. Un arall o ffefrynau eich colofnydd ond yn ddrud. Eto fe gewch bob peth yn ardderchog, yn arbennig efallai y safle ar lan y môr yn wynebu Môr Hafren. Ewch os yn ennill y Goron, Medal Rhyddiaith neu'r Gadair (a fe fydd Lucullus yn fodlon dod gyda chwi i ddangos y ffordd ac i rannu'r pryd). (****)

Nid yw hon yn rhestr gyfan o bell ffordd — 'does dim sôn am y llu o dai Indiaid, Paci a Bangla Deshi, ond gobeithio y bydd yn fuddiol i awgrymu ambell awr o seibiant yn ystod wythnos brysur.


**SAIN — RECORDIAU'R DYDD**

TREBOR EDWARDS — "CÂN Y BUGAIL" Sain (1113D)
BRÂN — "GWRACH Y NOS" Sain (1020M)
CLWT Y DDAWNS 11 Sain (1098D)

**AR WERTH YM MHABELL SAIN**
**DEWCH HEIBIO!**

sain



# Y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg

*GWASANAETH I GYMRU*

**Cynhyrchu Ffilmiau**
**Dosbarthu Ffilmiau**
**Y Sinema Deithiol**
**Cyfathrebu Cymdeithasol (GWELD)**
**Cefnogi talentau newydd**
**Cyfleusterau cynhyrchu annibynnol**

*Ysgrifennwch am fanylion i'r:*
*Bwrdd Ffilmiau Cymraeg,*
*Ffordd y Coleg,*
*Bangor.*
*Ffôn: (0248) 4687.*

# Cyfweliad â Golygydd PAIS

Mae'n draddodiad bellach gan wŷr busnes Cymru i gyflwyno eu nwyddau newydd i'r farchnad yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma Ganolfan Fasnachol y diwydiant recordiau, llyfrau cysau T, bathodynau ag ati gyda'r pwysalias ar ysgogi gwerthiant y "babi" newydd. Nid eithriad mo'r Eisteddfod hon chwaith gyda dyfodiad y cylchgrawn newydd honno i ferched (a bechgyn) sef "Pais". Mi es innau felly draw i ganol y peisiau gwyn ym mhabell 'Tai Gwynedd' i dorri gair ag Eleri, golygydd y fenter a gofyn sut adwaith a gafwyd i'r cylchgrawn hyd yn hyn?

A. Braidd yn fuan ydi hi a dweud y gwir ond mae'r adwaith wedi bod yn dda ar y cyfan — mae yno lawer o bobl wedi galw mewn i'n llongyfarch. 'Does dim llawer o bobl wedi dod ataf i feirniadu — a mwy o hynny sydd ei hangen. Rydym am wybod beth mae'r darllenwyr am ei weld yn y cylchgrawn.

C. *Ond ydi'r cylchgrawn yn efelychu'r cylchgronau Saesneg o ran ffurf a defnydd?*

A. Rydym yn ceisio cael cyfuniad o ddau beth, sef ysgrifennu am yr hyn sydd o ddiddordeb yn gyffredinol (yn Gymry neu'n Saeson) a chyfuno hynny ag elfennau Cymreig. Rydym am edrych ar ddigwyddiadau cyffredinol drwy lygad Cymraeg. Rydym yn defnyddio dulliau y cylchgronau Saesneg e.e. y cwis a'r dudalen broblemau (sydd i ymddangos yn y rhifolau dilynol) am fod y rhain wedi profi eu hunain yn boblogaidd a llwyddiannus ymhlith y darllenwyr felly rydym yn gobeithio fod yr un tactics yn gweithio yn y Gymraeg.

C. *Beth yw agwedd y cylchgrawn tuag at gynnwys erthyglau ar 'ryw' o sylweddoli nad oedd yr un eitem yn y gyfrol hon?*

A. Mi fydd na drafod ar y pwnc hon yn y dyfodol. D'ydyn ni ddim am drio fod yn neis a pheidio trafod rhyw yn blaen efo'r cyhoedd. D'ydyn ni ddim am ei gynnwys er mwyn ei gynnwys chwaith — hynny yw o ran 'sensationalism'. Hoffwn, yn hytrach, drafod y pwnc yn resymegol ac yn bwrpasol fel y bo materion yn codi.

C. *Sut ydych chi am sicrhau llwyddiant 'Pais'*

A. Rydym yn dibynnu ar sawl peth — e.e. cyhoeddusrwydd. Rydym wedi sicrhau fod Cwmni Siopau Smiths a'r Cyngor Llyfrau yn eu dosbarthu ymysg y Siopau. Rydym hefyd yn trio denu cynulleidfa o bobl nad ydyn nhw o angenrhaid yn 'ddosbarth canol' (gan ddefnyddio'r term yn ofalus) h.y. rydym yn ceisio cyrraedd dosbarth o bobl nad ydyn nhw efalla yn darllen llawer yn yr iaith Gymraeg ac o'r herwydd rydym yn ceisio cadw'r iaith yn syml.

Rhaid oedd gadael y sgwrs ar y pwynt hwn gan mor brysur oedd y babell — symbol o lwyddiant y cylchgrawn tybed? Beth bynnag fo'ch syniadau ynglŷn ag egwyddor y cylchgrawn hwn rhaid cydnabod fod tipyn o 'sglein' ar gyflwynid y cylchgrawn a da yw gweld agwedd broffesiynol y "tim" golygyddol yn amlygu ei hun drwyddo.

CARYS HALL WILLIAMS

## LIMRIGAU GWELL

A'th y goron i dad 'Plant Gadara'
— Un goblyn o smart, — ddylia' bara.
Gobeithio yr awron
'Gaiffo'r Gadara'r goron,
'S na chaiff o, — 'na fo, te, tara (ra)

Y 'Steddfod, os tyfu a wna,
Bydd yn rhaid cael y bar ar y ca'
I blesio bob "short"
Wrth ordro, cawn sbort
Ga'i Far-Cardi a Thonic — sol ffa?

## LIMRIGAU GWAEL

**Limerig Wael Ddi-odl arall**

Ar y cae mae 'na bob math o bethau
Yn gwerthu amrywiaeth o betha
Fe gewch gerdd Sion Eirian
Neu gonc a hambyrgyr
Neu hyd 'noed biano i'r parlwr.

**Limerig i gofio un na chafodd lwyfan**

Yn yr unawd i ferched 'roedd Beti
Yn canu rhyw ddarn gan Rosetti.
Fe boerodd, pesychodd
Ac yna fe saethodd
Ei dannedd i ganol y setti.

## *Poblogaidd*

**Y BABELL WYDDONOL**

*Yn ddiamau, dyma un o atyniadau mawr yr Eisteddfod, ond mae rhai'n dweud na ddylai fod yma o gwbwl. Cymysgu diwydiant a diwylliant! Beth yw eich barn chwi? Rhowch wybod i'r Dinesydd! Beth bynnag, a ddywedwch, mae'r llu sy'n ei mynychu yn dweud y dylai fod yn yr Eisteddfod bob blwyddyn.*

## Seren Wib!

Prif nodwedd y noson oedd y modd y ceisiwyd creu noson allan o lai nag awr o ffilm. Dawnsiodd grwp yr "Olivettes" yn dindrwm, dyfynnodd Gwyn Erfyl o gerdd fuddugol Siôn Eirian a darllennodd Dafydd Rowlands rai o'i gerddi'i hun. Darn byr o ffilm ac roedd hi'n egwyl ymhen llai na thri chwarter awr!

Dechreuwyd chwap wedi 7.30p.m. ac roedd y cyfan trosodd ychydig wedi naw. Ymddangosai £1.50 yn grocbris i amryw a fu yno. "Noson delynegol iawn", oedd sylw un wag a ddisgwyliai gael eistedd damaid yn hirach. "Digwyddodd, darfu, megis seren wib....."

Ail hanner yr "hanner-noson" oedd gweddill y ffilm ac Owen Edwards yn darllen o waith ei daid. Gwnaiff y ffilm ei hun rifyn delfrydol o "Bywyd" yn ystod llymder gaeaf. Golygfeydd bendigedig; clasuron llên plant ac ambell gyffyrddiad.

## Sauna Bath!

**'Roedd Hefin Wyn "Y Cymro" yn gwybod beth roedd yn ei wneud pan ddywedodd ffarwel am 9.30p.m. a chynnig imi ei gadair. "Sauna bath" yw'r clwb anffodus hwn erbyn "stop tap". Welwyd mo Geraint Jarman a'i grŵp tan tua hanner nos a disco'n unig fu'n diddanu'r dorf hyd hynny. Gwerth disgwyl amdano ond gwerth tua dau bwys o gorff dyn mewn chwys hefyd. "No sweat" ebe Ffred gan fod yr arian yn llifo'i mewn. Y commisionaire gwadd oedd Gronw ap Islwyn.**

## POBOL CWMDREWI



# O bellteroedd byd i Bentwyn

**Ymhlith y llu o ymwelwyr sydd wedi darganfod pencadlys cudd *Y Dinesydd Dyddiol nid nepell o'r* Babell Lên, roedd un a ddaeth o dipyn pellach i ffwrdd na'r rhan fwyaf sydd wedi gwneud y bererindod i Bentwyn. Mae Sondra Gordon Langford yn hannu o Chatham, New Jersey, UDA ac wrthi'n dysgu Cymraeg; bwriada barhau i ddysgu, o dapiau a llyfrau.**

Gohebydd papur-newydd ac athrawes yw Sondra, a chafodd gohebydd *Y Dinesydd Dyddiol* a hithau hwyl ar gyd-gyfweld ei gilydd. Bwriada Sondra ysgrifennu erthyglau ar Gymru i'w phapur hi, y *Chatham Courier-Madison Eagle*.

Does gan Sondra ddim cysylltiadau arbennig â Chymru, dim ond ei bod wedi dod ar draws Cymry a'r iaith Gymraeg ar nifer o wahanol achlysuron, ac yn teimlo'i hun yn cael ei thynnu at Gymru mewn rhyw ffordd na all mo'i esbonio.

Ar wyliau yn Iwerddon, cyfarfu â John ac Eluned Rowlands, a chael ei swyno'n llwyr wrth glywed y plant yn siarad Cymraeg - mae hi ac Eluned wedi cadw mewn cysylltiad byth er hynny. Daeth cyfnod ar Gwrs Dylan Thomas yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe ym 1975 a rhagor o gysylltiad â Chymru ac eleni, bu ar gwrs carlam Dan Lyn James yn Aberystwyth.

Dywed i hynny fod yn brofiad rhyfeddol, cyfrinol bron, fel pe bae pobl yn cael eu codi allan o'u bywydau cyffredin am ychydig wythnosau a'u derbyn i mewn i'r diwylliant Cymraeg am ychydig, gan roi rhyw bwrpas newydd iddynt, hyd yn oed os na fwriadent fynd ymlaen ag astudiaeth ddifrifol o'r iaith.

Y mae Sondra ar hyn o bryd ar ddechrau gradd PhD ym Mhrifysgol Drew, Madison, a bwriada newid ei maes ymchwil i astudio Crefydd a Diwylliant Cymru'r 19eg Ganrif. Ond cyn gallu gwneud hynny, rhaid dysgu Cymraeg yn iawn - ac y mae'n benderfynol y bydd hi'n rhugl erbyn Steddfod Caernarfon y flwyddyn nesa. Pob hwyl, Sondra - welwn ni chi yno!

**Rhyfedd ar ôl darllen ei erthyglau llym ond difyr yn *Y Cymro* ers blynyddoedd oedd gweld yr heddychwr anferth Y Parch. Tudur Jones ar faes yr Eisteddfod mewn iwnifform F.W.A.!**

# Colofn Hysbysebion Personol

* DYMUNIADAU GORAU I'N FFRINDIA FI I GYD - RHYDD.

*Er chwilio dyfal methais â dod o hyd i babell "Y Faner". All rhywun fy nghyfeirio yno os gwelwch yn dda? - IAN

*Wnaiff "Nain Nefyn" alw ym mhabell Sain i nôl ei theciall?


*GRESILDA - noson ora 'mywyd i! - DAI CORDUROY

*HARRI R. - Mae Top Rank ishio £5 am wely brecwast!

*YN EISIAU - Yn Llundain. Myfyriwr graddedig yn chwilio am ystafell sengl mewn fflat ac ati yng nghyffiniau Bloomsbury (Russel Square), ar gyfer Mis Hydref 1978. Cysyllter â Michael Prosser yn stondin Cwm Rhymni (neu ffôn Rhiwderyn 3376).

*DYFAN - be ddigwyddodd i'r 'Bara Caws' neithiwr? - LOWRI LYGODEN.

*DAFYDD,GWYN,ALUN diolch o galon hogia - SIÔN.




# Copars prin neu a oes Hedd-lu?

**Yn dilyn llwyddiant mawr Canolfan yr Urdd, Caerdydd, ar drefnu'r Meysydd Parcio yn y Brifwyl mae si ar led fod Cyngor Dinas Caerdydd yn mynd i gynnig cytundeb iddynt. Nid hon yw'r unig si sydd yn yr awyr ar hyn o bryd, meddai ein gohebydd arbennig, — mae son hefyd am gytundebau Eisteddfod Caernarfon, ac Eisteddfod yr Urdd, Maesteg, a Sioe Llanelwedd. Mae'n talu i ganolfan yr Urdd i drefnu eu meysydd yn hytrach nag adeiladu ffordd gylch (Ring Road) o amgylch eu maes.**

**Yr unig beth sydd yn tarfu ar lwyddiant y Ganolfan yw aneffeithiolrwydd yr heddlu i ddosbarthu'r ceir unwaith maent yn cyrraedd y brif fynedfa. Yn wir bu cyfnod pan fu'n rhaid i'r Urdd gymryd drosodd oddi wrth yr heddlu gan glirio'r dagfa yn gyflymach o lawer. Ar ôl yr hufen ia, ac yn awr y maes parcio mae'n debygol y gwna'r Urdd gais am gytundeb yr heddlu y tro nesaf. Gwylia dy hun, Wayne Williams.**



LAURIE PARKER

gan Barri Morgan a P.R.Penarth



# RHAGLEN HEDDIW... ...A HENO

**Y PAFILIWN**
9.30 Dawns greadigol dros 16 oed
1.20 Dawns y Glocsen i fechgyn
2.30 Y CADEIRIO
3.35 Cor Merched
4.15 Cerddorfa Siambr (Agored)
5.05 Rhuban Glas Offerynnol (dan 19)

**Y BABELL LEN**
10.30 "Llenydda i'r Ail Iaith" Ifor Owen
12.45 Darlith flynyddol y Gym. Wyddonol (Yr Athro John Thomas)
4.00 Ymryson y Beirdd

**Y THEATR FACH**
12.00 Y Ddrama Deledu: Cynllunio (Julian Williams)
2.00 HTV Cymru : Rhaglen i Blant
3.00 Tim T.M.A. Clwyd: "Castell Caerdydd"

**Y STIWDIO GERDD**
10.30 Trafodaeth ar gyngerdd dydd Mercher
12.00 "Dysgu Cerddoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg" (Eilonwy Jenkins a Lili Richards)
1.00 Gwerthu tocynnau
2.00 Karl Orff

**PABELL Y CYMDEITHASAU**
10.00 Cymdeithas Bob Owen
12.00 "Llenorion Lladin y Dadeni Dysg yng Nghymru" (Ceri Davies) Adran Glasurol Urdd y Graddedigion
1.00 Ymgyrch Diarfogi Niwcliar: "Byw gyda'r Bom" (Dafydd Elis Thomas A.S.)
2.30 Undeb Awduron Cymru

**PABELL Y DYSGWYR**
12.15 BRANWEN, pantomeim a berfformir gan fyfyrwyr Coleg Cyncoed
1.00 Fel uchod
2.15 Teledlad o'r Cadeirio.

**COLEG CYNCOED**
Côr Telynau Ann Griffiths.

**Y SHERMAN 7.30**
Cystadleuaeth Actio drama fer.

**YR ARENA (Sherman) 7.15**
PIPPI HOSAN HIR Theatr Caricature.

**10.30**
NEB YN DEILWNG Rifiw Aelwy Canolfan yr Urdd, Caerdydd.


**Y THEATR NEWYDD 7.30**
DIC PENDERYN Theatr yr Ymylon

**Y PAFILIWN 7.30**
Côr yr Eisteddfod "Gwledd Belsassar"

**TITO'S 10.30**
Ar Lôg
Delwyn Sion
Tecwyn Ifan
Geraint Davies

**CAPEL PEMBROKE TERRACE, CHURCHILL WAY**
HUNANGOFIANT RHYS LEWIS, Theatr yr Ymylon 7.45.

# GWASANAETH ARBENNIG EISTEDDFOD




CAEAU LLANDÂF — PENTWYN

Caeau Llandâf, Heol yr Eglwys Gadeiriol, Stryd y Castell, Heol Greyfriars, Heol Casnewydd, Heol Waterloo, Rhodfa Colchester, Heol Cyncoed, Heol Gwern Rhuddi, Heol Pentwyn, Pentwyn.

**DYDD LLUN 7 — Dydd Sadwrn 12 Awst**

CAEAU LLANDÂF — PENTWYN (Rwt 51)

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | 0830 | 0842 | 0854 | .... | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | 0954 | 1004 | 1014 | .... | .... | 1044 | .... |
| Heol y Castell | 0840 | 0852 | 0904 | .... | 0914 | .... | 0924 | .... | 0934 | .... | 0944 | .... | 0954 | 1004 | 1014 | 1024 | .... | .... | 1054 | .... |
| Heol Penylan | 0858 | 0910 | 0922 | 0927 | 0932 | 0937 | 0942 | 0947 | 0952 | 0957 | 1002 | 1007 | 1012 | 1022 | 1032 | 1042 | 1055 | 1102 | 1112 | 1122 |
| Pentwyn | 0912 | 0924 | 0936 | 0941 | 0946 | 0951 | 0956 | 1001 | 1006 | 1011 | 1016 | 1021 | 1026 | 1036 | 1046 | 1056 | 1109 | 1116 | 1126 | 1136 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | .... | 1114 | .... | .... | 1144 | .... | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1444 | 1514 | .... | .... | .... |
| Heol y Castell | .... | 1124 | .... | .... | 1154 | .... | 1224 | 1239 | 1254 | 1309 | 1324 | 1339 | 1354 | 1409 | 1424 | 1454 | 1524 | .... | .... | .... |
| Heol Penylan | 1132 | 1142 | 1152 | 1202 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | 1427 | 1442 | 1512 | 1542 | 1552 | 1602 | 1612 |
| Pentwyn | 1146 | 1156 | 1206 | 1216 | 1226 | 1241 | 1256 | 1311 | 1326 | 1341 | 1356 | 1411 | 1426 | 1441 | 1456 | 1526 | 1556 | 1606 | 1616 | 1626 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caeau Llandâf | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | .... | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 |
| Heol y Castell | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | .... | 1814 | .... | 1824 | .... | 1834 |
| Heol Penylan | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1827 | 1832 | 1837 | 1842 | 1847 | 1852 |
| Pentwyn | 1746 | 1756 | 1806 | 1816 | 1826 | 1836 | 1841 | 1846 | 1851 | 1856 | 1901 | 1906 |

PENTWYN — CAEAU LLANDÂF

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn | 0958 | 1028 | 1058 | 1128 | 1143 | 1158 | 1213 | 1228 | 1243 | 1258 | 1313 | 1328 | 1343 | 1358 | 1413 | 1428 | 1443 | 1458 | 1528 | 1558 |
| Heol Penylan | 1014 | 1044 | 1114 | 1144 | 1159 | 1214 | 1229 | 1244 | 1259 | 1314 | 1329 | 1344 | 1359 | 1414 | 1429 | 1444 | 1459 | 1514 | 1544 | 1614 |
| Heol y Castell | 1032 | 1102 | 1132 | 1202 | 1217 | 1232 | 1247 | 1302 | 1317 | 1332 | 1347 | 1402 | 1417 | 1432 | 1447 | 1502 | 1517 | 1532 | 1602 | 1632 |
| Caeau Llandâf | 1042 | 1112 | 1142 | 1212 | 1227 | 1242 | 1257 | 1312 | 1327 | 1342 | 1357 | 1412 | .... | 1442 | .... | 1512 | .... | 1542 | 1612 | 1642 |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pentwyn | 1608 | 1618 | 1628 | 1638 | 1648 | 1658 | 1708 | 1718 | 1728 | 1738 | 1748 | 1758 | 1808 |
| Heol Penylan | 1624 | 1634 | 1644 | 1654 | 1704 | 1714 | 1724 | 1734 | 1744 | 1754 | 1804 | 1814 | 1824 |
| Heol y Castell | 1642 | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 |
| Caeau Llandâf | 1652 | 1702 | 1712 | 1722 | 1732 | 1742 | 1752 | 1802 | 1812 | 1822 | 1832 | 1842 | .... |

*Bydd bysiau arbennig yn gadael Pentwyn am Gaeau Llandâf ar ôl y cyngherddau yn y Pafiliwn bob nos.*

Theatr yr Ymylon
yn
Y Pembroke Terrace
Churchill Way, Cardiff



Rhydwen Williams fel Daniel Owen
yn darllen

"HUNANGOFIANT RHYS LEWIS"

Llun, Awst 7fed — Dydd Sadwrn Awst 12fed. 7.45p.m.
Tocynnau £1.00. Plant 50c.
Swyddfa tocynnau, Caerdydd 372231

# LLYS YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL

Cefnogwch waith yr Eisteddfod
Ymunwch â chorff llywodraethol
y Brifwyl

Prynwch gyhoeddiadau'r Llys:
YR EISTEDDFOD
gan
Hywel Teifi Edwards
(Pris £1.75)

Cyfrol Medal Ryddiaith Wrecsam:
TRIPTYCH
gan
R. Gerallt Jones
(Pris £1.00)

**FFURFLEN AELODAETH**

Dymunaf fod yn aelod o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol

ENW: ............................................................

ENW LLAWN:

CYFEIRIAD: ..................................................

...................................................................

...................................................................

Amgaeaf danysgrifiad o:

£2 (lleiafswm) am aelodaeth blwyddyn
£20 am aelodaeth oes

**Anfoner at:** D. Hugh Thomas, Ysgrifennydd Aelodaeth, Llanfaes, 50 Church Road, Baglan, PORT TALBOT.

**NEU:** GADEWCH YR AMLEN YN *Y BABELL YMHOLIADAU* AR Y MAES.

# UCAC

## Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Yr unig Undeb athrawon sydd 100% o blaid Cymreictod. Yr unig Undeb Llafur annibynnol sydd â'i Bencadlys yng Nghymru ac sy'n buddsoddi ei arian i gyd yng Nghymru. Manylion pellach oddi wrth: Gareth Miles, Trefnydd Cenedlaethol UCAC, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 3AJ. (Ffôn: 494692)

# Cymru Imperialaidd?

**Cylchgrawn yn dangos fod Cymry'r Eisteddfod yn gweld ymhellach na maes y Brifwyl a chwrw Brains yw hwn, a gyhoeddwyd gan Gefnogwyr Chile yn Ne Cymru ac a ymddangosodd ddoe.**

Yn y pedair tudalen ar ddeg olrheinir cefndir hanesyddol Chile er y goncwest hyd y dyddiau hyn pryd y gwelir y crach a'r cyfoethogion yn cefnogi pwerau estron yn erbyn y bobl gyffredin. Ceir erthygl am ddylanwad cyfalafwyr Prydeinig yn ymelwa yn Chile a dangosir na fu Cymru yn rhydd o fai: bu meistri copr De Cymru yng nghanol y ganrif ddiwethaf yn manteisio yn yr un modd. Nodir sut y cymerodd Americanwyr yr awennau o ddwylo'r Prydeinwyr a hwythau yn eu tro yn cael eu disodli gan y ffasgwyr presennol. Y maent hwy yn awr yn ymrannu ymhlith ei gilydd yn sgil pwysau o'r tu allan i Chile megis y streiciau newyn a gynhaliwyd yn Abertawe a Chaerdydd yn ddiweddar. Cylchgrawn diddorol a gwerthfawr o safbwynt addysgiadol.

*CHILE AC IMPERIALAETH BRYDEINIG. 20c (10c yn ystod wythnos yr Eisteddfod), Pabell y Werin.*

# Cyflog neu gardod

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus y Mudiad Meithrin ym Mhabell y Cymdeithasau heddiw. Ar ffurf dadl oedd y drafodaeth a'r testun oedd — "Mae'n amser i fudiad ysgolion meithrin ddod i ben fel mudiad gwirfoddol." Agorwyd yn gadarnhaol gan Mr J. Albert Evans a ofynnodd a ydy'r mudiad yn hapus gyda'r adnoddau sydd gyda ni'n barod i'n athrawon a'n ysgolion meithrin. Dywedodd ei bod yn hen bryd i'r awdurdodau gymryd y cyfrifoldeb am ein ysgolion meithrin. "Cyflog nid Cardod i'n hathrawon," meddai.

Yn nacaol siaradodd Mr Dan Lyn James a phwysleisiodd ef ar werth y gwirfoddolwyr yn y mudiad. Soniodd am bwysigrwydd cefnogaeth sefydliadau Cymraeg i genhadu ymysg y di-gymraeg a chroesawu Cymry di-gymraeg i'w cartrefi. Dywedodd na ddylwn fanteisio ar ein Cymreictod wrth dderbyn arian am ein gweithgaredd. Bu sylwadau bywiog o'r llawr a therfynnodd y cyfarfod gyda'r cytundeb bod angen swyddogion cyflogedig a gwirfoddolwyr ar y mudiad.

# Neb yn deilwng

**Bydd Rifiw ochr-holltol Canolfan yr Urdd, Caerdydd "Neb yn Deilwng" yn agor yn Arena Theatr y Sherman heno (Fe'i perfformir nos Wener a nos Sadwrn hefyd). Ond tybed a wyddech chi fod 4 o'r actorion yn cystadlu ar y gystadleuaeth. cyflwyniad Llafar ddydd Llun? Wynebau braidd yn goch oedd ganddynt pan ddyfarnodd y beirniad yn y rhagbrofion nad oedd NEB YN DEILWNG i fynd ymlaen i'r llwyfan!**



# Hwyrnos Haf

**12.30a.m.: Gwelwyd Lenna Pritchard Jones yn sefyll yn unigedd y nos y tu allan i Theatr Fach y Maes yn barod i gadeirio sesiwn ar "Goluro Teledu" dan ofal y BBC Gohiriwyd y Sesiwn am "resymau annisgwyl" ond ddywedodd neb wrth y cadeirydd!**

# UNWAITH ETO

**Wedi'i holl son am Seisnigrwydd y Steddfod, beth wnewch chi o'r hysbyseb a ymddangosodd yn y *South Wales Echo* ddechrau'r wythnos. Fe'n gwahoddir i ymweld â'r "National Eisteddfod" am "a full day's entertainment for everyone... Tuesday's attractions... Crowning the Bard". Digon teg yw hysbysebu'n ddwyieithog mewn ardal ddi-Gymraeg, ond a oedd eisiau rhoi cymaint o'r hysbyseb yn yr iaith fain: pedair llinell ar bymtheg yn Saesneg (mewn llythrennau bras) a thair llinell yn unig yn Gymraeg.**

# Dic Penderyn

**Llwyddiant anhygoel — dyna farn pawb am yr opera roc DIC PENDERYN a gyflwynwyd gan Theatr yr Ymylon yn y Theatr Newydd neithiwr. Roedd y theatr fawr yn orlawn o bobl o bob oed ac anian a phawb wedi mwynhau yn ddiwahan.**

Serch hynny fe ddechreuodd y noson yn ddigon sigledig o ran symud a chanu; yn wir, roedd hi'n anodd iawn i ddeall y geiriau o gwbl. Ond roedd y grŵp yn sicr iawn o'u gwaith ac roedd graen arbennig ar y gerddoriaeth. Cyn hir, fe dwymodd y perfformwyr at eu gwaith ac erbyn yr olygfa gyffrous "Mas! Mas!" roedd yn amlwg eu bod yn cael hwyl fawr arni: roedd y canu wedi gwella'n arw, a'r symud yn wefreiddiol.

Y gân "Bach bach yw eisiau dyn" oedd yn cloi'r act gyntaf ac i mi, dyma gân orau'r opera. Gwireb yw ei theitl - a dyna, yn syml iawn, yw neges yr holl noson.

Roedd y perfformio'n well fyth yn yr ail haner, ac erbyn y diweddglo, gyda'r gân "Camwedd" a "Bach, bach" unwaith eto yn gorffen y noson, roedd pawb yn y theatr yn gweiddi am fwy. Rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n bwriadu mynd nôl i weld y sioe eto nos yfory.

Peidiwch anghofio, mae dwy record sengl o'r caneuon (yn cynnwys "Bach, bach") ar werth ym mhabell Theatr yr Ymylon ar y maes.

IAN WILLIAMS

# Barddas

Deallwyd fod y Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth ac yn edrych ymlaen am yr amser pan fyddai'n bosibl i gyflogi swyddog amser llawn i fod yn gyfrifol am ailsefydlu'r Ysgol Farddol ledled Cymru.

Dwy swydd newydd ydyw swyddi'r Swyddogion Aelodaeth. Hwy fydd yn gyfrifol am sicrhau sail gref i weithgareddau Barddas yn y De a'r Gogledd.

Atgoffwyd yr aelodau fod gan y Gymdeithas babell ar y maes, ar y cyd â Gwasg Gwynedd, lle byddai'r ysgrifennydd a'r trysorydd yn falch o groesawu'r tanysgrifiadau newydd ar gyfer 1978-79.

# Croeso i'r Wasg!

Ymhlith pobl Y Wasg eleni, mae tri o Sbaen! Pe bai Undeb y Ffermwyr yn gwybod hynny, fe fydden nhw, hwyrach, wedi ychwanegu tarw at yr anifeiliaid sydd ganddyn nhw ar y maes!

YSGOL GYFUN RHYDFELEN
CWRT Y CADNO

**CRONFA CWRT Y CADNO**

CANOLFAN CWRT Y CADNO

Bydd prynu ac addasu'r ysgol hon ynghanol y fro Gymraeg yn yr hen Sir Gâr yn gaffaeliad mawr i ddisgyblion Rhydfelen ac ysgolion eraill a mwy o ddisgyblion o gartref di-gymraeg nag erioed ynddynt, sydd ar hyn o bryd a chymaint o angen cysylltu â chymdeithas Gymraeg 'i hiaith. Oni fedr ein hysgolion yn rhannau prin 'u Cymraeg Cymru wneud darpariaethau ychwanegol fel hyn, yna annhebygol fydd llwyddiant ymdrechion i weld cynnydd yn nifer y genhedlaeth ifanc sy'n Gymry dwyieithog. Afraid cyfeirio at bwysigrwydd hyn yn achos dyfodol y Gymraeg 'i hun. Gofynnwn felly i chi ystyried unrhyw gyfraniad ariannol, bach neu fawr, fel cymorth uniongyrchol i hybu achos y mae a wnelo'n agos â chadw iaith, diwylliant a thraddodiad i'r oesoedd a ddêl. Gwyddoch mor bwysig yw cyfraniad ysgolion fel Rhydfelen yn yr ymdrech unfed awr ar ddeg y mae'n rhaid wrthi i ddiogelu'r agweddau hyn sy'n gyfystyr â pharhad y genedl. Diolch i chi.



# CYMRY AR WASGAR

## gan Dafydd Elis Thomas, A.S.

Cyfres yw hon ynglŷn â Chymry sydd naill ai wedi dewis, neu wedi gorfod mynd dros Glawdd Offa i fyw neu i weithio, eu hymateb hwy i fyw yn Lloegr, a'r modd y mae hynny, os o gwbl, wedi newid eu hagwedd at Gymru. Heddiw, Dafydd Elis Thomas, A.S., Meirion.

(Parhad)

Penderfynodd y ddau ohonym ni ein bod ni'n gwneud ein hareithiau morwynnol cyn gynted ag y gallem ni i'w cael nhw o'r ffordd, ac fe ges i'r cyfle yn y ddadl ar araith y frenhines gan fod rhan o'r ddadl wedi ei neilltuo i drafod amaethyddiaeth ym mhlith pynciau eraill. Fe ges i ganmol fy rhagflaenwyr yn ôl at Tom Ellis, disgrifio'r etholaeth a dweud cwpwl o bethau di-sylw a di-gyffro eraill. Roeddwn i wedi ysgrifennu'r erthygl mewn pen ffelt du yn fy llaw gain fy hun ac wedi'i darllen hi, a hynny ar garlam, yn gyflymach hyd yn oed nag y bydda i'n parablu fel arfer. Mae hi'n gonfensiwn yn y clwb fel ag y mae hi yn y lle acw i aelod sy'n siarad ar ôl araith forwynnol i dalu teyrnged hael i'r aelod newydd ar ei araith ac i gynnig y gobaith gwiw y bydd y Tŷ yn cael clywed ganddo yn aml yn eu dadleuon yn y dyfodol. Fe wnaeth fy olynydd hynny, ond ychwanegu fod fy acen i yn od i'w glustiau East Anglaidd o a mod i hefyd wedi peri anhawster mawr i ysgrifennwyr Hansard oherwydd â llawfer bensil boenus yr ysgrifennir pob gair sy'n cael ei lefaru gan aelodau seneddol yn y siambr er bod yn cyfan bellach yn cael ei ddarlledu ar y radio. Mae'n debyg yng nghanol perfformiad cyntaf aelod newydd Meirionnydd fod o leiaf ddau o ohebwyr Hansard wedi bwrw i lawr eu pensiliau mewn anobaith.

Sut i bleidleisio ŷdi'r wers bwysig arall i aelod newydd, cerdded i mewn i'r lobi, cerdded heibio'r ddesg ar y cefn fel dafad, ynganu eich enw ac yna cerdded rhwng y ddau chwip, bowio a chodi eich pen a chwip y llywodraeth yn cyfri'n uchel. Wrth gwrs prin y bydd aelodau fel arfer hyd yn oed yn gwybod ynglŷn â beth mae nhw'n pleidleisio. Un peth roedd yn rhaid i ni ei wneud oedd gofalu ein bod ni'n deall ffordd yr oedd polisi'r Blaid yn ein harwain ni. Lawer tro yn y senedd fer honno y cawsom ni gyfarfod ffurfiol o'r blaid seneddol i wneud penderfyniad yng nghyntedd yr aelodau cyn mentro i mewn i'r lobi. Mewn cyfyng gyngor felly un tro fe ddaeth un o hen chwipiau'r Llywodraeth ata i "Look lad, can I give you a piece of advice? If in doubt vote Labour." Rydw i wedi ceisio dilyn ei gyngor o, nid ein bod ni yn awr mae wedi, hyd yn oed yn nyddiau'r senedd fer, glos, yn bwriadu gwneud unrhyw drefniadau ffurfiol hefo'r Llywodraeth. Fe fyddwn ni'n ymgynghori'n gyson; ar ôl deuddydd fe fydd raid i'r blaid seneddol gyfarfod â phenderfynu ar swyddogaethau. Fe garwn i gywiro un fersiwn sydd wedi ei chylchredeg yng Nghymru'n ddiweddar fod Dafydd Wigley wedi cael ei ethol yn arweinydd y Blaid Seneddol ym Mawrth 1974 drwy i ni daflu ceiniog i'r awyr. Mae'n wir nad oes ganddon ni mo'r ymwybyddiaeth o hanes sydd gan Gwynfor, ond yr oeddem ni'n ymwybodol, o leif, o'r olyniaeth seneddol. Roedd yn briodol i olynydd prif chwip y Blaid Ryddfrydol yn naw-degau'r ganrif ddiwethaf ddringo i fod yn brif chwip y blaid Gymreig seneddol honno y breuddwydiodd Tom Ellis ormod amdani. Ac ni allai hyd yn oed cyfrifydd peiriannau golchi oedd yn sefyll yn sgidiau Lloyd George fod yn ddim llai nag arweinydd y blaid seneddol. Mae yna lawer o ohebwyr wedi gwneud sylwadau am y rhaniad ym mhlaid seneddol Plaid Cymru rhwng y chwith a'r dde ond dydi dadansoddiad fel yna ddim yn gyfangwbl gywir. Y rhaniad y bydden ni'n dau yn 74 yn cyfaddef iddo oedd bod un adran o'r blaid seneddol yn llythrennog a'r llall yn rhifyddog, un yn anllythrennog a'r llall yn methu cyfrif. Un peth y bydden ni'n dau yn cytuno arno yn dod o gefndiroedd swyddi gwahanol oedd mai senedd Lloegr yw'r lle mwyaf aneffeithiol rydyn ni erioed wedi cael yr anfantais o weithio ynddo. Roedd Coleg Harlech mor effeithiol â phencadlys IBM o'i gymharu â'r senedd fleraf a mwyaf aneffeithiol yn y byd democrataidd. Mam y seneddau medde nhw. Fe fydde'u hen nain yn well disgrifiad o safbwynt oriau, cyfleusterau, adnoddau ymchwil, swyddfeydd, trefn pwyllgorau, trefn galw aelodau, trefn pleidleisio, siarad, oriau gwallgo, ond bod oriau y bar yn cydfynd. Ond dyna fo, pan ddaw etholiad yn yr hydref, neu pryd bynnag y daw fe fyddwn ni'n rhedeg o gwmpas eto fel ffyliaid a thorri'n bogeiliau eisiau cael mynd yn ôl yno.

(Nodyn gan y golygydd: Gobeithir cyhoeddi rhagor o ddarnau yn cynnwys cloi'r aelod seneddol yn y lle chwech adeg y bleidlais dyngedfennol, cyn brif chwip y Llywodraeth yn cusannu Gwynfor Evans; Donald Coleman yn methu unwaith eto â chadw cworwm yr Uwchbwyllgor Cymreig; Michael Heseltine yn rhannu caniau lacyr gwallt hefo Mrs Thatcher; pam y cymharodd Jim Callaghan ei hun â Bendigeidfran; ai Tam Dalyell neu Leo Abse yw Efnisien a'r gwir am chwaer-yng-nghyfraith Neil Kinnock. Mae hyn i gyd, heb son am araith fawr Walter Padley, ym mhenodau nesaf hunangofiant yr unig aelod seneddol o Gymru i gael ei enwi yn y Guiness Book of Records 1974 ac a ddisgrifiwyd yn y Sun ym 1976 "Fresh-faced... left-wing extremist... champion of the Welsh language."

# Eisteddfod i Fachynlleth

**Yng nghyfarfod Llys yr Eisteddfod neithiwr, penderfynwyd mai i Fachynlleth y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn mynd ym 1981. Penderfynwyd hefyd y dylid troi Eisteddfod Caernarfon, 1979 yn Gwmni Cyfyngedig dan Waranti.**

**Bu cryn ddadlau yn y cyfarfod ynglŷn â lleoliad Swyddfa'r Eisteddfod. Cynigiodd Wynfford James y dylid lleoli'r swyddfa yn rhywle fel Aberystwyth ac eiliodd Dafydd Iwan hynny. Ar ôl cryn drafod, cynigiodd Dewi Davies y dylid gohirio'r penderfyniad tan y penderfynai'r Llys ai symudol ynteu sefydlog a fyddai'r Eisteddfod Genedlaethol yn y dyfodol, a derbyniwyd hynny.**

# Y Delyn Fud

Mae swyddogion yr Eisteddfod wedi cael cryn drafferth i weithredu'r rheol, "Dim ceir ar y maes" o barch i'r eisteddfodwyr! Ond mae na ochr arall i'r geiniog. Maen nhw'n gyndyn iawn i roi caniatâd i neb ddod â char i'r maes yn ystod y dydd i ddadlwytho! Meddyliwch am y telynorion a'r telynoresau, druain! Does bosib eu bod yn disgwyl iddyn nhw lusgo'u telynnau o bellafoedd y meysydd parcio. Os na fyddan nhw'n ofalus, bydd y telynau eisteddfodol yn fud toc!



# Y BRIFWYL O'R BRIFDDINAS

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes Eisteddfod Caerdydd i Gymru benbaladr.

POB BORE o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 10a.m. bob dydd, dwy awr o'r Wyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

Y PRIF SEREMONÏAU — dydd Mawrth Y Coroni, dydd Iau Y Cadeirio, dydd Gwener Croesawu'r Cymry Alltud — oll ar HTV Cymru.

PENAWDAU'R NEWYDDION am 1.20p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes y Brifwyl.

Y DYDD a REPORT WALES. *Y Dydd* o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6p.m. *Report Wales* am 6.18p.m.

RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD bob nos am 6.30p.m. o nos Fawrth hyd nos Wener, ac ar nos Sadwrn am 5.55p.m.

Y GADAIR A GWOBR GOFFA DANIEL OWEN — Caiff HTV Cymru yr anrhydedd o gyflwyno'r gadair a hefyd gwobr Goffa Daniel Owen yng nghystadleuaeth y nofel.

YR WYTHNOS. Rhifyn arbennig o'r *Wythnos* nos Lun yr Wyl am 8.30p.m. yng nghwmni Cenwyn Edwards.

AR Y MAES — gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell y Plant, taflen y dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni — cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

Ymunwch â ni

YN DATHLU DENG MLYNEDD O WASANAETH
o Faes y Brifwyl ac o'r Ganolfan Deledu
yng Nghaerdydd.

HTV
CYMRU WALES

# CROESO I FAES YR EISTEDDFOD
OND COFIWCH
AM Y PETHAU A GYNHELIR
MEWN MANNAU ERAILL

**Y THEATR NEWYDD**

Nos Lun / Nos Fawrth — Y TŴR (Gwenlyn Parry) Cwmni Theatr Cymru

Nos Fercher / Nos Iau — OPERA ROC — DIC PENDERFYN Cwmni Theatr yr Ymylon

Nos Wener / Nos Sadwrn — PASIANT CYFLWYNO CAERDYDD Plant Ysgol Bryntaf

**THEATR BUTE**
(Coleg Cerdd a Drama)

Nos Lun / Nos Fawrth / Nos Fercher — BLODEUWEDD (Saunders Lewis) CWMNI COLEG ABERYSTWYTH

**COLEG CYNCOED**

Tri Chyngerdd Siambr
(5.00p.m.)
Mawrth: Offerynwyr Coleg Cerdd Cymru
Mercher: Consort Pres Cymreig
Iau: Côr Telynau Ann Griffiths

**LLYFRGELL SALISBURY**
**(Coleg y Brifysgol)**

DRWY WYTHNOS YR EISTEDDFOD
ARDDANGOSFA O LYFRAU PRIN

**THEATR Y SHERMAN**

Nos Lun — / Nos Fawrth — Y LLINYN ARIAN (ffilm)

Nos Fercher — EQUUS (Peter Shaffer) Cwmni Coleg y Drindod

Nos Iau — CYSTADLEUAETH ACTIO
Cwmni Heol y Crwys
Cwmni Llwyndyrus
Cwmni'r Dewin

Nos Wener / Nos Sadwrn — NOS YSTWYLL (cyf. J.T. Jones o *Twelfth Night.*) Cwmni'r Eisteddfod

**THEATR YR ARENA**
(yn adeilad y Sherman)

Nos Lun — RHWNG BYW A MARW
(detholion o ddramâu Samuel Beckett)

Nos Fawrth / Nos Fercher — PRY YN Y PREN (rhaglen amrywiol yn cynnwys TRI CHYFAILL gan John Gwilym Jones)

Nos Iau / Nos Wener / Nos Sadwrn — THEATR BYPEDAU Jane Phillips

# Cymdeithas Adeiladu Nationwide
# Dyma'r Gymdeithas i bara am oes

## Bwrdd Rhanbarthol Cymru

Cadeirydd: Syr Harry Llewellyn CBE
Ardalydd Môn DL FSA Hon FRIBA FR HistS;
Syr Hugo Boothby Bt DL YH
Alex Gordon CBE PPRIBA LLD; T Mervyn Jones CBE MA

## Rheolwr Dros Gymru

Huw Lloyd Williams

## Swyddfeydd

Caerdydd
Casnewydd
Cwmbran
Penarth
Y Barri
Penybont Ar Ogwr
Pontypridd
Abertawe
Castell Nedd
Llanelli
Caerfyrddin
Hwlffordd
Aberystwyth
Bae Colwyn
Bangor
Wrecsam
Y Rhyl
Caerffili
Aberdar
Aberdaugleddau

# Nationwide
## Y Gymdeithas Adeiladu am oes

Cronfeydd dros £3,000m,wedi ei awdurdodi fel buddsoddiad Ymddiriedaethol
Aelod o Gymdeithas y Cymdeithasau Adeiladu

# Cyflwyno deiseb i John Morris

**Brynhawn ddoe, cyflwynodd Mrs E. Davies, Cadeirydd Grŵp Trigolion Mackintosh Place, Caerdydd, a Mr Owen John Thomas, aelod arall o'r grŵp hwnnw, ddeiseb ag arni 1,050 o enwau trigolion y cylch i Mr John Morris, Ysgrifennydd Cymru, tra'r oedd yn ymweld â maes yr Eisteddfod.**

Dywedodd Mrs Davies yn ddiweddarach iddi hi gael gwrandawiad cwrtais iawn pan gyflwynodd y ddeiseb i Mr Morris, ond er iddi hi ddanfon nifer o lythyron at yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r mater hwn o'r blaen, mynnai Mr Morris na welodd mo'r un ohonynt. "Dyma wneud yn siwr o'r diwedd ei fod yn derbyn y wybodaeth i'w ddwylo ei hun," meddai Mrs Davies, "yn hytrach na gadael y mater i fympwy rhyw was sifil yn y Swyddfa Gymreig."

Mae trigolion Mackintosh Place yn gwrthwynebu adeiladu hosteli myfyrwyr ar dir a addawyd ar gyfer campws cymdeithasol gan Gyngor blaenorol y Ddinas ym mis Tachwedd 1975. Dadl y gwrthwynebwyr yw mai dyma'r *unig* safle yn yr holl gylch y gellir ei ddefnyddio i ddiben y gymuned ei hun, a chyflwynwyd memorandwm gyda'r ddeiseb yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y safle gan gynnwys canolfan gymuned, tai noddfa i henoed a'r methiedig ac ati, gofod chwarae ac ati, cyfleusterau y mae mawr angen amdanynt yn y cylch. Pwysleisia'r grŵp na ydynt yn erbyn y myfyrwyr; teimlo a wnant y dylai anghenion trigolion lleol gael y flaenoriaeth.

Er gwaethaf yr addewid blaenorol, aeth yr Athrofa (UWIST) ymlaen i roi cynllun ger bron Cyngor y Ddinas ar gyfer nifer o hosteli myfyrwyr ar y safle hon, a thros y Sul, rhoddwyd rhybudd o hyn i *rai* o'r trigolion, a chyfle i wrthwynebu'r peth o fewn deng niwrnod o dderbyn y rhybudd.

Dan Adran 35 o'r Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref bresennol, y mae hawl gan drigolion lleol ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddefnyddio ei hawl i ystyried unrhyw gynllun dadleuol o'r fath a phenderfynu arno. Gall wneud hyn os bydd trwch y boblogaeth yn gwrthwynebu rhyw gynllun arbennig. Mae'r ddeiseb hon gyflwynwyd i Mr Morris heddiw yn profi *fod* mwyafrif trigolion Mackintosh Place a'r cylch cyfagos yn gwrthwynebu'r cynllun hosteli, a gobeithio y gwêl yr Ysgrifennydd Gwladol yn dda i ystyried y cynllun hwn cyn gynted ag y bo modd.



*Mrs Davies a Mr Thomas*

Parcio'r car? Wel dim traffarth yntol.
Dim dadla na dim hen gybol.
Fel teyrnged fe godwn
Gerllaw y Pafiliwn
Adeilad-sef
JOHN ALBERT'S HALL.

# MYMateb gwych!

Daeth tyrfa enfawr ynghyd ym mhabell HTV am baned o goffi bore ddoe. Mae'r cwmni teledu wedi bod yn gyfrifol am drefnu'r boreau coffi ers tua tair i bedair blynedd bellach, ond yn ôl swyddog o'r Mudiad dyma'r dyrfa fwyaf erioed. Ond efallai mai presenoldeb pobl fawr fel Geraint Howells A.S. a Tom Evans, Prifathro Bryntaf, oedd yn chwyddo'r babell.

# Gwerthwr dewr

Cafodd Michael Jones, Cadeirydd *Y Dinesydd* yr anrhydedd o werthu copiau o'r *Dinesydd Dyddiol* i Alun Evans a John Morris, y naill ar ôl y llall!





*ARAN ANDERSON, un o'n gwerthwyr bapur.*

# Triban v Gomer

Bu cryn anghydfod ar y maes ddoe pan wrthododd Gwasg Gomer roi cyflenwad o gopiau o gyfrol y Fedal Ryddiaith i'w gwerthu ym mhabell Siop y Triban gan fod y Triban yn bwriadu gwerthu'r gyfrol am 10% yn llai na neb arall ar y maes. Er i Siop y Triban wrthod ymrwymo i werthu'r gyfrol am y pris iawn, cafodd gopiau o'r gyfrol gan Gomer cyn diwedd y prynhawn.

Mae Siop y Triban wedi bod yn cynnig gostyngiad o 10% ar bob llyfr a record newydd ar werth yn eu pabell ar y maes, ac ni allai Pete Meazey, perchennog Siop y Triban, weld pam y dylai cyfrol Harri Williams fod yn eithriad i hyn. "Rydyn ni wedi addo'r gostyngiad hwn i'n cwsmeriaid yn ein holl hysbysebion," meddai Mr Meazey. "Gan nad yw Gwasg Gomer (na'r un cyhoeddwyr Cymraeg eraill) yn aelod o'r Publishers' Association, nid oes pris nett ar y llyfrau a gyhoeddir ganddynt, ac nid oes dim i'n hatal felly rhag gwerthu am bris llai."

Ymateb Mr John Lewis, Gwasg Gomer oedd, "Os oes rhywun ar y maes yma mewn sefyllfa i gynnig gostyngiad, ni yw'r bobl hynny. Fe allem ni werthu'r gyfrol hon a'r Cyfansoddiadau am 25% o ostyngiad, ond dydyn ni ddim yn dewid gwneud hynny, o ran tegwch i lyfrwerthwyr eraill ar y maes."

A beth am y Cyfansoddiadau y prynhawn yma? A fyddai Gwasg Gomer yn gwrthod rhoi copiau o'r rheini i Siop y Triban i'w gwerthu? "Na," oedd ateb Mr Lewis, "y cwbl y gallwn ni ei wneud yw apelio ar Mr Meazey i werthu am y pris cywir."

Dywedodd Mr Meazey fod Siop y Triban yn dal i ystyried beth oedd orau i'w wneud.

# Sain gwan

**Llai nag arfer ar werth gan Sain yn yr Eisteddfod eleni ond amrywiaeth eang yw'r byrdwn unwaith eto. Braf yw croesawu ail-ddyfodiad y record sengl roc gynta gyda thair gan Shwn, Crysbas ac Edward H. Dafis.**

**Yr unig record hir gan grŵp roc yw "Gwrach y nos," Bran, er bod recordiau hir gan Mynediad am Ddim, Becca Teewyn Ifan.**

**Dim ond yr ail record gwbl Gymraeg i weld golau dydd yw "Canu Caernarfon" — record o ddoniau bro Steddfod '79.**

**Hefyd ar werth mae darlith hynod gan Bob Owen, Croesor, "Hen Win", — Aled Lloyd Davies, "Cantorion Ardwyn" ar daith, Noson Lawen y Diddanwyr, Gwynne James a Chôr Meibion y Moelwyn.**

**IAN WILLIAMS**

Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, Caerdydd.